

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**  
**12 GORFFENAF 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, ddydd Iau, 12 Gorffennaf 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Joe Johnson, Colin Legg, Vicky Perfect a Paul Shotton.

**HEFYD YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr: Marion Bateman a Christine Jones**

Y Cyngorwyr: Roedd Janet Axworthy, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Tudor Jones, David Mackie a Mrs. Lynn Bartlett yn bresennol fel Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid. Gwahoddwyd y Cyngorwyr i'r cyfarfod ar gyfer cofnod rhif 11.

**CYFRANWYR:** Cyngorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; Cyngorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd; Cyngorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr UCI; Rheolwr Rhaglen Cludiant; Uwch Reolwr (Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion); Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) a Rheolwr Gwasanaeth (Mynediad a'r Amgylchedd)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Amgylchedd a Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Gymuned ac Addysg

**10. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**11. CANLYNIAD YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AM GLUDIANT CYHOEDDUS AC ANGHYSONDEBAU GYDA CHLUDIANT CYMDEITHASOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yr adroddiad ynghylch Canlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gludiant Cyhoeddus ac Anghysonderau o ran Cludiant i'r Ysgol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion ynglŷn â'r llwybrau bws y rhoddwyd cymhorthdal ar eu cyfer, a chanlyniad yr ymgynghoriad ynglŷn ag adolygu'r rhwydwaith bysus. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad er mwyn rhoi sylw i'r gwasanaethau hynny a sicrhau gwasanaeth cludiant cyhoeddus fforddiadwy a chynaliadwy yn y dyfodol.

**Adolygu'r Rhwydwaith Bysus**

Adroddodd Rheolwr y Rhaglen Cludiant ar yr adolygiad o'r rhwydwaith bysus. Er mwyn hwyluso'r adolygiad, cynhaliwyd proses ymgynghori gyhoeddus dros gyfnod o 8 wythnos gyda'r cyhoedd, aelodau etholedig a chynghorau tref a chymuned a wahoddwyd i roi adborth ar y cynigion. Y pedwar dewis a gyflwynwyd i'w hystyried oedd:-

- Dewis 1 – rhoi'r gorau'n llwyr i roi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bws;
- Dewis 2 – gwneud dim a dal i roi cymhorthdal ar gyfer y llwybrau hynny oedd eisoes yn eu cael;
- Dewis 3 – Dal i roi cymhorthdal ar gyfer llwybrau yn y rhwydwaith craidd, a darparu dulliau cludiant gwahanol, cynaliadwy a lleol mewn cymunedau nad ydynt yn y rhwydwaith craidd.
- Dewis 4 – Dal i roi cymhorthdal ar gyfer y llwybrau yn y rhwydwaith craidd a chyflwyno gwasanaeth sy'n ymatebol i'r galw mewn cymunedau nad ydynt yn y rhwydwaith craidd.

Roedd aelodau etholedig a chynghorau tref a chymuned yn bennaf o blaid Dewis 3, ond cydnabuwyd nad oedd un dewis i blesio pawb a byddai'n rhaid i'r agwedd tuag at gludiant amrywio o un ardal i'r llall yn dibynnu ar angen a galw lleol. O dan y dewis a ffeirir, y nod fyddai darparu cludiant lleol mewn cymunedau nad oeddent yn y rhwydwaith craidd ar ffurf bysus bach, a oedd yn fwy addas ar gyfer natur y llwybrau mewn ardaloedd gwledig. Roedd llwybrau arfaethedig wedi'u nodi ar gyfer trefniadau teithio lleol, ac roedd rhestr o'r rheiny ynghlwm wrth yr adroddiad.

Daeth Rheolwr y Rhaglen Cludiant i'r casgliad y cynigiwyd bod y newid arfaethedig o ran darpariaeth gwasanaeth yn cael ei gyflwyno o 1 Hydref 2018 yn raddol ac roedd cynllun gweithredu ac amserlen arfaethedig ynghlwm wrth yr adroddiad.

Esboniodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad bod y cwmnïau bysus wedi gwneud nifer o newidiadau yn y rhwydwaith bysus masnachol, a oedd wedi cael effaith ar gymunedau ac wedi creu bylchau posib yn y ddarpariaeth; nid oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros hynny. Fodd bynnag, roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gadw'r rhwydwaith bysus dan adolygiad ac ymyrryd pan oedd hynny'n briodol.

Diolchodd y Cynghorydd Paul Shotton i'r swyddogion am yr adroddiad ac am y sesiynau ymgynghori helaeth a gynhaliwyd. Dywedodd, yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, a ddengys yn yr adroddiad, ei bod yn ymddangos bod consensws ar gyfer Dewis 3 a bod y dewis hwn yn cysylltu'n dda â'r trefniant cludiant newydd ar gyfer Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy. Gofynnodd a oedd contractwr wedi'i ddewis i ddarparu Gwasanaeth Bws Gwennol Glannau Dyfrdwy. Dywedodd y Prif Swyddog bod y Cyngor wedi derbyn cyllid Llywodraeth Cymru a'r UE i brynu pedwar bws bach 16 sedd a pum Bws Allyriad Carbon Isel gyda'r bwriad o ddefnyddio'r Bysus Allyriad Carbon Isel fel rhan o Wasanaeth Bws Gwennol presennol Glannau Dyfrdwy. Byddai Gwasanaeth Bws Gwennol Glannau Dyfrdwy yn cael ei ail-gaffael dros yr haf a'i redeg gan gontractwr allanol a byddai'r gwasanaeth yn cael ei ail-frandio a'i lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cynigiwyd y byddai'r pedwar bws bach 16 sedd yn cael eu defnyddio ar gyfer trefniadau teithio lleol, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, a'u rhedeg yn fewnol o fewn Portffolio Strydwedd. Y bwriad oedd darparu gwasanaeth bysus bach proffesiynol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel a chynnal rheolaeth well o weithrediadau cludiant teithwyr.

Ceisiodd y Cynghorydd Chris Dolphin gael sicrwydd y byddai'r ymgynghoriad â chynghorau tref a chymuned yn parhau cyn yr eid ati i lunio amserlen a'i rhannu. Mynegodd bryder am fod gofyn i'r Pwyllgor argymell dewis heb wybod pa effeithiau/toriadau a fyddai ar lwybrau bysus. Rhoddodd Reolwr y Rhaglen Cludiant sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai ymgynghoriad â chynghorau tref a chymuned a gweithredwyr yn cael ei gynnal cyn llunio amserlen. Roedd adborth gan gymunedau wedi'i goladu i nodi'r bylchau yn y gwasanaeth presennol a byddai'r adborth hwn yn cael ei rannu â chymunedau drwy ymarfer ymgynghori pellach i sicrhau bod gwybodaeth yr adborth yn gywir. Dywedodd yr Aelod Cabinet, drwy nodi'r bylchau yn y gwasanaeth a'r ymgynghoriad parhaus â chynghorau tref a chymuned, mai'r gobaith oedd cynnig gwasanaeth wedi'i drefnu yn hytrach na gwasanaeth cyn-archebu.

### Anghysonderau Hanesyddol o ran Cludiant i'r Ysgol

Esboniodd y Prif Swyddog y cwblhawyd y gwaith i optimeiddio llwybrau cludiant i'r ysgol ac ail-gaffael y gwasanaeth fis Medi 2017. Wrth wneud y gwaith, canfuwyd bod nifer o drefniadau cludiant anstatudol wedi'u sefydlu yn y gorffennol a oedd yn mynd y tu hwnt i'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Roedd y rheiny'n gyfleoedd i sefydlu dulliau newydd o ddarparu'r gwasanaeth a sicrhau arbedion.

Darparodd y Prif Swyddog, Rheolwr yr UCI a Rheolwr y Rhaglen Cludiant fanylion am yr anghysondebau ynghyd â chynigion ynglŷn â sut y gellid ymdrin â phob mater, fel y dangosir yn yr atodiad i'r adroddiad.

Esboniodd yr Aelod Cabinet y byddai disgyblion presennol yn parhau i dderbyn yr un gwasanaeth. Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylw ar y cludiant a ddarperir i fyfyrwyr fynychu Grŵp Drama FUSE yn Theatr Clwyd ac esboniodd, yn y gorffennol, darparwyd y cludiant hwn drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaeth Bws Gwennol Glannau Dyfrdwy. Pan ddaeth grant Llywodraeth Cymru i ben, gwnaethpwyd penderfyniad ar y pryd i'r Cyngor barhau i roi cymhorthdal i'r gwasanaeth hwn. Roedd hyn yn torri'r Polisi Cludiant presennol ac nid oedd yn deg i'r grwpiau eraill ar draws y Sir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Evans, esboniodd y Prif Swyddog y byddai'r gwasanaethau yn cael eu hail-gaffael bob blwyddyn i sicrhau bod bws o faint cywir yn cael ei ddefnyddio er mwyn osgoi cael seddi gwag. Os oedd gwasanaeth â seddi gwag eisoes yn weithredol, yna byddai modd cynnig y seddi gwag hyn am gyfradd ratach.

Darllenodd y Cynghorydd Marion Bateman y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar Gludiant i'r Ysgol, ac nid oedd yn credu bod y canllawiau hyn wedi'u dilyn o fewn ei ward. Diolchodd i'r Aelod Cabinet am ymyrryd mewn mater diweddar a cheisiodd sicrwydd y byddai'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y Sir yn y dyfodol.

Mynegodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin bryder ynghylch brodyr a chwiorydd a dywedodd os nad oedd yn bosibl i frodyr a chwiorydd gael mynediad at gludiant, roedd yn bosibl i rieni deimlo eu bod yn colli eu dewis o ran pa ysgol i anfon eu plant. Cynigodd bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet y dylid ystyried

ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer brodyr a chwiorydd o ran cludiant i'r ysgol ac fe gefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Colin Legg, esboniodd Rheolwr yr UCI, os oedd ysgol agosaf y plentyn yn llawn, yna byddai cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol agosaf wedi hynny.

Ceisiodd Mrs. Lynne Bartlett sicrwydd yr ymgynghorwyd ag Ysgol Pencoch, Y Fflint gan y byddai'r cynigion yn effeithio ar blant diamddiffyn. Rhoddodd y Prif Swyddog sicrwydd bod Rheolwr yr UCI a'i thîm wedi ymgysylltu'n llawn ag Ysgol Pencoch yn ystod yr ymarfer ymgynghori.

### Tocynnau Teithio Rhatach

Adroddodd Rheolwr yr UCI fod cynnig i gynyddu pris seddi gwag rhatach er mwyn sicrhau adennill costau'n llawn. Dangoswyd y dewisiadau i'w hystyried er mwyn adennill y costau'n llawn o fewn yr adroddiad, ynghyd â'r ffioedd ar gyfer seddi gwag rhatach mewn awdurdodau lleol cyfagos, at ddibenion cymharu. Dangoswyd manylion pellach ynghylch y Cynllun Seddi Gwag Rhatach arfaethedig ynghlwm wrth yr adroddiad.

Esboniodd yr Aelod Cabinet fod y cynigion i adennill costau'r seddi gwag rhatach wedi'u dwyn ymlaen yn dilyn y gefnogaeth fel y dewis a ffefrir yn y Gweithdy i'r holl Aelodau a gynhaliwyd fis Tachwedd 2017.

Dywedodd y Cynghorydd Evan ei fod yn teimlo'n anghyfforddus â'r gost gynyddol arfaethedig ac awgrymodd y dylai'r Cyngor gael golwg ar yr hyn yr oedd awdurdodau cyfagos yn ei godi, a chynyddu'r prisiau yn unol â'u rhai hwy. Dywedodd bod angen mwy o wybodaeth am hyn a'r cynnydd posibl o ran pris seddi rhatach. Esboniodd y Prif Swyddog y byddai'r gost yn parhau i fod yn llai na'r hyn oedd yn cael ei dalu ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am yr adroddiad, eu presenoldeb ac am ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan Aelodau.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn argymhell mabwysiadu Dewis 3 (cefnogi rhoi cymhorthdal ar gyfer llwybrau yn y rhwydwaith craidd, a darparu dulliau cludiant gwahanol, cynaliadwy a lleol mewn cymunedau nad ydynt yn y rhwydwaith craidd) o fewn pedair ardal ddaearyddol o'r Sir;
- (b) Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r lefelau gwasanaeth a gynigiwyd ar y rhwydwaith bysus strategol craidd;
- (c) Cefnogi darparu gwasanaeth bws bach yn fewnol er mwyn ategu'r trefniadau teithio lleol, lle bo hynny'n gost effeithiol.
- (d) Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r dull argymelledig o ymdrin â threfniadau anstatudol ar gyfer cludiant i'r ysgol a sefydlwyd yn y gorffennol, fel y'u nodwyd wrth adolygu'r gwasanaeth;

- (e) Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet y dylid ystyried ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer brodyr a chwirydd o ran cludiant i'r ysgol; a
- (f) Bod y Pwyllgor yn argymhell mabwysiadu Dewis 2 fel y strwythur prisiau gorau ar gyfer tocynnau teithio rhatach, ac adolygu effaith y cynnydd mewn prisiau ar ôl blwyddyn.

## **12. HYBU TWRISTIAETH A RHEOLI CYRCHFAN**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) yr adroddiad ynglŷn â Hybu Twristiaeth a Rheoli Cyrchfannau, a oedd yn ymdrin â'r dulliau a ddefnyddiwyd yn Sir y Fflint a'r rhanbarth ehangach i hybu'r economi dwristiaeth drwy weithgarwch hyrwyddo, a rheoli a gwella'r profiad a gynigir i ymwelwyr.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am waith y Gwasanaeth Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol a'r Gwasanaeth Twristiaeth, a oedd ill dau wedi chwarae rhan arwyddocaol ar y cyd, a byddai cyfleoedd i gydweithio mwy yn y dyfodol yn sgil ailstrwythuro yn ddiweddar.

Diolchodd y Cynghorydd Shotton i'r swyddogion am yr adroddiad a gwnaeth sylw ar y cynnig twristiaeth yn Sir y Fflint. Cynnig a oedd y Pwyllgor wedi ei weld dros ei hun yn ystod ei gyfarfod diweddar a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dreftadaeth Maes Glas. Gwaeth sylw ar gyflwyniad diweddar y sgysiaiu a'r teithiau cychod ger y Cei a chanmolodd waith Ceidwaid y Sir ar hyd llwybr yr arfordir.

Diolchodd y Cynghorydd Vicky Perfect i'r Rheolwr Gwasanaeth (Mynediad a'r Amgylchedd) a'i dîm am osod meinciau newydd ar hyd llwybr yr arfordir ger Castell Fflint. Gwnaeth sylw ar lwyddiant y digwyddiad Rock the Castle yn Y Fflint a fynychwyd gan 2,000 o bobl a diolchodd i Geidwaid yr Arfordir am eu cyfraniad ac am feirniadu'r gystadleuaeth castelli tywod.

Diolchodd y Cynghorydd Dolphin i'r Rheolwr Gwasanaeth (Mynediad a'r Amgylchedd) a'i dîm am eu gwaith caled. Gofynnodd pryd a fyddai modd gosod arwydd i ymwelwyr ar yr A55 i hyrwyddo Ffynnon Sant Gwenffrewi ac ardaloedd cyfagos. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) fod y Cyngor yn darparu arwyddion brown a gwyn a bod adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i nodi lle'r oedd bylchau ar draws y Sir. Roedd angen bod yn ofalus â'r cyllid oedd ar gael ond pan fyddai mwy o arian ar gael gan Lywodraeth Cymru, byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i gyflwyno ceisiadau am gyllid drwy gael y cynlluniau priodol ar waith.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Datblygu Economaidd bod angen newid agweddau am Sir y Fflint. Dywedodd bod 80% o Sir y Fflint yn wledig ond nid oedd hyn wedi'i gydnabod drwy argaeledd cyllid Ewropeaidd. Y gobaith oedd y byddai yn cael ei ddatrys drwy Gynnig Twf Gogledd Cymru ac er bod yr economi ymwelwyr yn Sir y Fflint yn rhan gymharol fechan o economi Sir y Fflint, roedd yn dal i wneud cyfraniad pwysig, a oedd yn cynhyrchu oddeutu £252m y flwyddyn.

Wrth drafod Cynnig Twf Gogledd Cymru, dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai Sir Y Fflint yn gallu cymryd mantais o'r cyfleoedd buddsoddi cyfalaf yng Nghaergybi o ran Llongau Mordeithiau a phleserdeithiau o fewn cwmpas 1 awr.

Dyweddod bod nifer yr ymwelwyr Japaneaidd ar draws Gogledd Cymru wedi cynyddu o 84% ac er bod gan Sir y Fflint lawer iawn o atyniadau, nid oedd y llety yn yr ardaloedd o'r un safon â'r llety yng Nghernyw neu'n Ardal y Llynnoedd.

Gwnaeth y Cynghorydd Legg sylw ynghylch Mynydd Helygain a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith caled i gynnal y mynydd. Dywedodd bod arwyddion yn bwysig, yn enwedig ar gyfer cyfleusterau toiled gan y gallai hyn fod yn broblemus i rai ymwelwyr. Gwnaeth sylw ynghylch yr angen i ddiogelu tir comin oherwydd ei ddaear, fflora a hanes diwydiannol a mynegodd bryder ynglŷn â cherbydau modur ar dir comin. Dywedodd y byddai'n fodlon cynnal taith o Fynydd Helygain ar gyfer unrhyw Aelod a oedd â diddordeb.

Mewn ymateb i awgrym gan yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad yn nodi y dylai'r Cynghorydd Legg fod yn Llysgennad Twristiaeth, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) fod 30 o Lysgenhadon Twristiaeth ar draws y Sir a oedd yn gynrychiolwyr busnesau yn bennaf. Roeddent wedi cytuno â chyfres o egwyddorion i groesawu ymwelwyr i'r ardal.

Cwestiynodd y Cynghorydd Evans y ffigur o 2.7m o ymweliadau diwrnod i Sir y Fflint, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd pa fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo ymweliadau diwrnod a gofynnodd a fyddai modd darparu mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am hyn yn dilyn y cyfarfod. Roedd o'r farn bod y Cyngor yn colli cyfle drwy beidio ag annog caffis a thafarndai ar hyd llwybr yr arfordir, yn debyg i'r rhai ar Gors Burton. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) fod nifer yr ymwelwyr yn cael eu cyfrifo drwy Fodel STEAM. Roedd y model hwn yn cael ei ddefnyddio ar draws Gymru a gellid rhannu'r adroddiad diweddaraf â'r Pwyllgor. Dywedodd hefyd fod prosiect yn cynnwys Sustrans yn edrych ar gysylltu llwybrau beicio arfordirol Y Fflint a Chei Connah a chynyddu nifer yr ymwelwyr.

Dyweddod y Cynghorydd Haydn Bateman fod ymwelwyr â Thraeth Talacre wedi cysylltu ag ef yn ddiweddar gan eu bod wedi'u siomi'n arw â'r holl sbwriel yn yr ardal a bod y biniau yn orlawn. Gofynnodd hefyd a oedd gwaith yn mynd rhagddo i wella'r goleudy ar Draeth Talacre. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Mynediad a'r Amgylchedd) fod cydbwysedd o ran denu pobl i ardaloedd ond roedd perygl hefyd y gallai hynny ddifetha'r ardaloedd. Ychwanegodd ei bod yn briodol i sicrhau fod gwaith cynnal a chadw a rheoli ardal yn cael ei wneud i sicrhau fod yr ardal yn ddigon gwydn i ymdopi â nifer yr ymwelwyr ychwanegol. Dywedodd fod y goleudy ar Draeth Talacre bellach yn eiddo preifat a dywedodd fod y perchennog presennol wedi bod yn mynd i'r afael â'r gwaith adeiladu y tu mewn i'r adeilad cyn symud ymlaen i adnewyddu'r tu allan.

Diolchodd y Rheolwr Gwasanaeth (Mynediad a'r Amgylchedd) i'r Aelodau am eu geiriau caredig a dywedodd y byddai'n cyfleu eu diolchiadau i'r ceidwaid a'r swyddogion twristiaeth ar ôl y cyfarfod.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r dulliau presennol a newydd o hyrwyddo Sir y Fflint i ymwelwyr a rheoli cyrchfannau.

13. **AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd dau aelod o'r cyhoedd a thri aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.15 pm)

.....  
**Cadeirydd**